

Cofnodion Cyfarfod Gweithgor Gilfach Iago a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe ar nos Fawrth, Mawrth 7^{fed}, 2018 am 6 yh.

Presennol

Cynghorwyr	P.H. Roberts Mrs J.E. Collins	Mrs S. E. Thomas C.J. Harris	Mrs K.D. L Davies
------------	----------------------------------	---------------------------------	-------------------

Ymdiheuriadau	N. Evans	A. Davies
----------------------	----------	-----------

235.

Safle Glo Brig Gilfach Iago

Anerchwyd yr Aelodau gan Will Watson, Prif Weithredwr, a Rob Thompson, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Celtic Energy Ltd. Roedd y Cadeirydd wedi'u hatgoffa am y cynnig blaenorol a drafodwyd yn y cyfarfod gyda Mr Thompson ar Fawrth 7^{fed}, 2017, ac a gofnodwyd yng Nghofnodion y Cyngor ar y dyddiad hwnnw. Roedd Mr Watson wedi mynegi syndod bod unrhyw gynnig ariannol wedi'i wneud bryd hynny.

Roedd Mr Watson wedi bod yn Brif Weithredwr am 5 mlynedd, a disgrifiodd yr achos fel 'tipyn o lanast' yn gyfreithiol ac yn weithredol, ac roedd angen ei ddatrys. Pan werthwyd y tir yn yr ardal, ni osodwyd cymalau gan eu cyfreithiwr (Celtic Energy) i ddatgan bod gofyniad i adfer y tir ac, o ganlyniad, awgrymodd y byddai'n anodd iawn gwneud y gwaith adfer. Roedd Mr Thompson wedi cydnabod na fyddai'n bosib, oherwydd hyn, i wireddu map blaenorol o lwybrau ceffyl potensial. Yn yr un modd, os byddai'r Cyngor Cymuned yn derbyn setliad ariannol i adfer y tir, bydden nhw hefyd yn wynebu anawsterau am yr un rhesymau.

Dywedodd Mr Watson wrth yr Aelodau ei fod wedi mynychu'r cyfarfod gan ddisgwyl negodi cynnig ariannol, ond roedd yr Aelodau yn disgwyl llwybrau troed, llwybrau ceffyl ac arian, yn unol â'r Cofnodion blaenorol. Aeth ymlaen i argymhell bod ymweliad safle yn cael ei drefnu ar Ebrill 18^{fed}, 2018, a chyn y dyddiad hwnnw byddai Celtic Energy yn adolygu'r ddogfennaeth gynllunio a materion yn ymwneud â pherchnogaeth tir. Gofynnwyd i'r Clerc wahodd personél o Gyngor Sir Caerfyrddin – Steve Murphy, Huw Towns a Simon Charles, yn ogystal â'r Cynghorydd David Thomas, fel y Cynghorydd Sir etholedig ar gyfer ward Penygroes - i'r cyfarfod.

Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Cyngor Llawn nesaf drafod y mater mewn manylder, a thrafod yr hyn mae'r Cyngor yn barod i'w dderbyn fel isafswm arian iawndal.

Cytunwyd cynnal cyfarfod pellach ar Ebrill 18^{fed}, 2018 am 4.30 yh i gynnwys ymweliad safle, a chyfarfod arall am 6 yh ar Fai 16^{eg}, 2018.

236.

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 7 yh.